YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 70
TACHWEDD 2014

Ers dros flwyddyn bellach bu cynrychiolwyr o gapel Horeb ynghyd â chynrychiolwyr o rai o eglwysi rhyddion eraill Gogledd Ceredigion, yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried y gwahanol ffyrdd o nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth y cynhyrchydd Euros Lewis, Felinfach i'n harwain a'n cynorthwyo ac erbyn hyn hyfrydwch yw cyflwyno i'ch sylw ddyddiadau a lleoliadau pen llanw'r gwaith, sef yr Arddangosfa a'r Cyflwyniad Dramatig.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys lluniau, dogfennau a chreiriau lleol a gasglwyd mewn gwahanol ganolfannau a'r cyfan wedi'i guradu gan William Howells. Agorir yr arddangosfa ar nos Lun, 3ydd Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau am 7yh ac fe fydd yn teithio i Dal-y-bont, Capel Bangor, Penrhyn-coch a Chapel Seion yn ystod mis Tachwedd er mwyn galluogi cynifer o bobl ag sy'n bosib i weld y deunydd hynod ddiddorol a ddaeth i'r amlwg.

Yn ogystal, cynhelir cyflwyniad dramatig mewn dwy ran a fydd yn olrhain effaith y Rhyfel Mawr ar fywydau unigolion yng ngogledd Ceredigion. Perfformir y cyflwyniad yng Nghapel y Garn; Bethel, Tal-y-bont; Pen-llwyn, Capel Bangor; a Horeb, Penrhyn-coch. Rwyf wedi nodi amseroedd a lleoliadau'r arddangosfa drosodd ac rwy'n siwr bydd nifer ohonoch yn dod i gefnogi'r fenter.

Cawsom gyfle hefyd ym Methel ar y Sul olaf ym mis Hydref i gofio am y Rhyfel Mawr wrth inni ail-gysegru yr Organ Bib a adeiladwyd gan Frederick Rothwell. Pan agorwyd yr organ am y tro cyntaf gwnaed hynny er cof am y gwŷr ifainc o Fethel a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel. Bu'r oedfa yn un hynod fendithiol ac hyfrydwch oedd clywed yr organ bib ar ei newydd wedd. Edrychwn ymlaen at glywed yr organ yn rheolaidd.

Mae'n siwr y cynhelir digwyddiadau eraill yn lleol a fydd yn fodd inni gofio am y Rhyfel a'r miloeddd ar filoedd o bobl ifainc a gollodd eu bywydau o dan amodau erchyll a dirdynnol. Boed i'r cofio ein sbarduno o'r newydd i weithio dros dangnefedd Duw ac i sianelu ein hymdrechion i adeiladu heddwch parhaol yn ein cymdeithas a'n byd.

Dduw'r heddwch drud, clyw'n llef am hedd i'r byd,
a gwawried dydd pan fydd pob un â'i fryd
ar fyw drwy ffydd i'th ogoneddu'n rhydd,
yn ufudd i'th ewyllys lân bob dydd;
O Dduw ein Tad, rho in drwy Grist yn rhad
y dwfn dangnefedd bythol ei barhad.

Tudor Davies

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 berwynfa@btinternet.com

CALENDR TACHWEDD 2014

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	**Organydd y Mis : Mair Evans**	
2 Tachwedd 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan
9 Tachwedd **9.30yb: Sylwer ar yr amser.** Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 10.45yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog Bydd y plant yn cyflwyno eu bocsys Ymgyrch Nadolig y Plentyn	
16 Tachwedd 10.30yb 2.30	Ysgol Sul Oedfa Bregethu: Miss Beti Griffiths	 Gofal y Te: I'w drefnu
23 Tachwedd 10.30yb	Ysgol Sul. Oedfa Bregethu: Gweinidog	
30 Tachwedd 10.30yb	Oedfa Bregethu:Gweinidog	
7 Rhagfyr 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue

I'CH DYDDIADUR

3 Tachwedd: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Festri Seion: 12.00-1.30yp
3 Tachwedd: Agoriad swyddogol y Prosiect Cofio a Myfyrio yn Neuadd Rhydypennau am 7yh.
4-5 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Neuadd Rhydypennau, Bow Street.
4 Tachwedd: Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Hendygwyn-ar-daf.
6 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Cyflwyniad Dramatig Act I yng Nghapel y Garn am 7.30yh
10-11 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Arddangosfa yn Neuadd Tal-y-bont
12 Tachwedd: Cinio Cymunedol: Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch am 12.00yp
12 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Cyflwyniad Dramatig: Act 2 ym Methel, Tal-y-bont am7.30yh
13 -14 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Arddangosfa yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor
14 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Cyflwyniad Dramatig: Act 1 yng Nghapel Penllwyn, Capel Bangor
15 Tachwedd: Cymdeithas y Penrhyn: Noson yng nghwmni y milfeddyg Glesni Haf Powell
17-19 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Arddangosfa yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch
19 Tachwedd: Cymdeithas Bethel yn Festri Horeb am 2.30yp. Cawn gyfle i weld y ffilm am y Parchg Peter Thomas a baratowyd gan William ar gyfer yr oedfa ddathlu a daw Zoe Glynne Jones, Gweithiwr Ieuenctid Eglwysi Gogledd Ceredigion i siarad am ei hymweliad ag Uganda yn ystod yr haf.
20 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Act 2 yn Horeb, Penrhyn-coch
21-22 Tachwedd: Prosiect Cofio a Myfyrio: Arddangosfa yn Neuadd y Paith, Capel Seion.
25 Tachwedd: Cylch Darllen y Beibl am 2yp
26 Tachwedd: Cinio Cymunedol: Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 12.00yp: Horeb yn gyfrifol am weini

LLOFFION

Dymuniadau gorau i Mona a Henry sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.
Clwb Hanner Tymor: Diolch yn fawr iawn i Wendy, Ceri, Zoe ac Eirian a fu'n cynnal y Clwb Hanner Tymor yn y festri.
Ymgyrch Nadolig y Plentyn: Ar fore Sul 9 Tachwedd am 9.30yb bydd y plant yn cyflwyno bocsys Ymgyrch Nadolig y Plentyn a fydd yn cael eu cludo dramor i blant sydd mewn angen ar gyfer y Nadolig. Os hoffech baratoi bocs cysylltwch â Ceri neu'r Gweinidog.
Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae rhaglenni 2015 ar gael gan Ceris – pris £1.35.